

**202- Rhif (Cy. )**

**TRAFFIC FFYRDD, CYMRU**

Gorchymyn Traffordd yr M4  
(Cyffordd 42) a Chefnnffordd yr  
A48 (Cyfnewidfa Earlswood,  
Llansawel) (Terfyn Cyflymder  
Dros Dro a Chau'r Llain Galed  
Dros Dro) 2024

*Gwnaed*                            27 Awst 2024  
*Yn dod i rym*                    2 Medi 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o'r M4 a Chefnnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42) a Chefnnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Earlswood, Llansawel) (Terfyn Cyflymder Dros Dro a Chau'r Llain Galed Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Medi 2024.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(2) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**202- No. (W. )**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

The M4 Motorway (Junction 42) &  
The A48 Trunk Road (Earlswood  
Interchange, Briton Ferry)  
(Temporary Speed Limit & Closure  
of Hard Shoulder) Order 2024

*Made*                            27 August 2024  
*Coming into force*              2 September 2024

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the M4 and A48 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway and trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Title and commencement**

1. The title of this Order is The M4 Motorway (Junction 42) & The A48 Trunk Road (Earlswood Interchange, Briton Ferry) (Temporary Speed Limit & Closure of Hard Shoulder) Order 2024 - and this Order comes into force on 2 September 2024.

**Interpretation**

**2. In this Order—**

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales Motorway;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A48 London to Fishguard Trunk Road;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("works period") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 2 Medi 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" "the motorway" yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "y gefnffordd" ("the trunk road") yw Cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun.

## Cyfyngiad

1. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

## Gwaharddiad

2. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r llain galed ar y draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

## Cymhwysyo

3. Ni fydd y gwaharddiad na'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

4. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

27 Awst 2024



Tim Barnes  
Is-adran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

"works period" ("cyfnod y gwaith") means intermittent periods commencing at 00:01 on 2 September 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Restriction

1. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the motorway and trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

## Prohibition

2. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the hard shoulder on the motorway and trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

## Application

3. The prohibition and restriction in articles 3 & 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## Duration of this Order

4. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

27 August 2024



Tim Barnes  
Strategic Road Network Division  
Transport  
Welsh Government

## ATODLEN 1

### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M4 sy'n dechrau o bwynt tua 30 o fetrau i'r de o Gyfnewidfa Llandarcy hyd at bwynt 600 metr i'r dwyrain o Brunel Way, gan gynnwys ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 43 o Gyfnewidfa Llandarcy hyd at bwynt lle y mae'n ymuno â phrif gerbytffordd yr M4.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 sy'n dechrau o bwynt 600 metr i'r dwyrain o Brunel Way hyd at bwynt tua 30 o fetrau i'r de o Gyfnewidfa Llandarcy, gan gynnwys ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 43 o'r pwyt lle y mae'n ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd yr M4 hyd at Gyfnewidfa Llandarcy.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt lle y mae'n ymwahanu oddi wrth Gefnffordd yr A483 hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â phrif gerbytffordd yr M4.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt lle y mae'n ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd yr M4 hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â phrif gerbytffordd yr M4.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt lle y mae'n ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd yr M4 hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â chroesffordd Cefnffyrdd yr A48 a'r A483.

Y darn o'r A48 sy'n arwain at Gyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o gylchfan Brunel Way / yr A48 hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â'r groesffordd â Chefnffordd yr A483.

## ATODLEN 2

### Gwahardd cerbydau rhag mynd ar y llain galed dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M4 sy'n dechrau o bwynt ar brif gerbytffordd yr M4 lle y mae ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 42 yn dechrau hyd at bwynt 165 o fetrau i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483 (islaw'r M4).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 sy'n dechrau o bwynt ar brif gerbytffordd yr M4 165 o fetrau i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483 (islaw'r M4) hyd at bwynt lle y mae ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 42 yn dechrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt tua 50 metr i'r gogledd o

## SCHEDULE 1

### Temporary 40 mph speed limit

The length of the M4 eastbound carriageway that starts from a point approximately 30 metres south of Llandarcy Interchange to a point 600 metres east of Brunel Way, including Junction 43 eastbound on-slip from Llandarcy interchange to a point where it joins the M4 main carriageway.

The length of the M4 westbound carriageway that starts from a point 600 metres east of Brunel Way to a point approximately 30 metres south of Llandarcy Interchange, including Junction 43 westbound off-slip from the point it diverges from the M4 main carriageway to the Llandarcy interchange.

The length of M4 Junction 42 eastbound on-slip that starts from a point where it diverges from the A483 Trunk Road to a point where it meets the M4 main carriageway.

The length of M4 Junction 42 westbound on-slip that starts from a point where A48 and A483 Trunk Roads intersect to a point where it meets the M4 main carriageway.

The length of M4 Junction 42 eastbound off-slip that starts from a point where it diverges from the M4 main carriageway to a point where it meets the intersection of A48 and A483 Trunk Roads.

The length of the A48 approach to Junction 42 of the M4 that starts from the Brunel Way / A48 roundabout to a point where it meets the intersection with the A483 Trunk Road.

## SCHEDULE 2

### Temporary Prohibition of Vehicles from Hard Shoulder

The length of the M4 eastbound carriageway that starts from a point on the M4 main carriageway where the Junction 42 eastbound off-slip starts to a point 165 metres east of the A483 Trunk Road (below M4).

The length of the M4 westbound carriageway that starts from a point on the M4 main carriageway 165 metres east of the A483 Trunk Road (below M4) to a point where the Junction 42 westbound on-slip starts.

The length of the M4 Junction 42 eastbound on-slip that starts from a point approximately 50 metres north of the M4 overbridge at the Junction 42 eastbound on-

drosbont yr M4 wrth ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 42 hyd at y pwynt lle y mae'r ffordd ymuno yn cyfarfod â phrif gerbytffordd yr M4.

slip to the point where the slip road meets the M4 main carriageway.